**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet
dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

24 Chwefror 2025

Annwyl Huw,

## Llythyr yn dilyn y cyfarfod ar 5 Chwefror 2025

Diolch am ddod i'r sesiwn weinidogol yn craffu ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (y Cynllun) ar 5 Chwefror. Wrth drafod wedyn, nododd y Pwyllgor sawl pwynt yr hoffai dynnu eich sylw atynt.

Yn gyntaf, er bod y Pwyllgor yn llwyr sylweddoli bod nifer o ffactorau amrywiol yn effeithio ar y gwaith o gwblhau'r cynnig ar gyfer y Cynllun, hoffem bwysleisio pa mor hanfodol fydd gwneud cyhoeddiad amserol – mae'n bwysig bod popeth yn cael ei gwblhau ac yn barod erbyn y cyhoeddiad yn yr haf er mwyn sicrhau eglurder i ffermwyr. At hynny, hoffem bwysleisio pa mor bwysig yw sicrhau bod digon o gyllid yn cael ei neilltuo mewn cyllidebau aml-flwyddyn a fydd yn gwneud y cynllun yn ddeniadol i ffermwyr ac yn rhoi sicrwydd o ystyried natur hirdymor arferion ffermio. Rydym wedi clywed tystiolaeth gan sefydliadau amgylcheddol ac undebau ffermio a ddywedodd, os nad yw'r wobr ariannol a gynigir yn ddigon deniadol, na fydd ffermwyr yn ymuno â'r cynllun, ac ni wireddir uchelgais y cynllun felly, ni waeth pa mor dda y mae wedi'i ddylunio.

Gwnaethom hefyd nodi nifer o bwyntiau a godwyd yn ystod y sesiwn y byddem yn gwerthfawrogi eglurder yn eu cylch, fel y nodir isod:

- Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad oes 'cynllun B' ar gyfer dyluniad y cynllun, fel y trafodwyd yn ystod y sesiwn, ac rydym yn gwerthfawrogi bod hynny'n rhoi eglurder i ffermwyr. Fodd bynnag, byddem yn awyddus i ddeall a oes unrhyw gynlluniau ar waith pe bai'r asesiad o'r effaith economaidd yn dangos canlyniadau gwael i ffermwyr neu'r amgylchedd? Rydym yn ymwybodol mai dim ond ychydig fisoedd fydd rhwng cwblhau'r cynllun a'i lansio. Mae hyn yn

arbennig o berthnasol o ystyried pa mor allweddol oedd yr asesiad effaith economaidd blaenorol, a arweiniodd at brotestiadau cyhoeddus ar sail yr ymgynghoriad yn 2023/4.

- Yn ystod y sesiwn, cafwyd trafodaeth ar waith mapio diweddar Llywodraeth Cymru o'r tir a fyddai'n addas ar gyfer plannu coed. Nid oedd modd darparu canrannau penodol ar gyfer canlyniadau hyn ar y pryd, felly byddem yn ddiolchgar pe gellid darparu'r rhain yn awr, fel y gwnaethoch ymrwymo i'w wneud.
- Fel y trafodwyd yn ystod y sesiwn, byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu cael yr adroddiad llawn ar waith y panel dal a storio carbon, gan gynnwys canlyniadau'r ymarfer i sgorio gwahanol opsiynau dal a storio carbon, pan fydd ar gael.
- Hoffai'r Pwyllgor dderbyn y cynnig i gael amserlen o ddatblygiadau o ran y cynllun, pan fydd manylion pendant ar gael.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'r ffaith y bydd camau Dewisol a Chydweithredol, a fydd ar gael o 2026, yn cael eu cyhoeddi gyda'r cynllun yn yr haf, yn ogystal ag amserlen ar gyfer pryd y bydd yr opsiynau Dewisol a Chydweithredol eraill ar gael yn ystod y Cyfnod Pontio.

Yn olaf, er bod y Pwyllgor yn cydnabod y bydd gan bob plaid wleidyddol safbwyntiau maniffesto gwahanol yn y cyfnod cyn etholiad 2026, bydd y gallu i geisio rhyw fath o gonsensws gwleidyddol i ennyn hyder yn y cynllun yn hollbwysig i'w lwyddiant. Gobeithiwn y byddwch yn cytuno bod hon yn flaenoriaeth allweddol, ac y byddwch yn ceisio hyd eithaf eich gallu i gael cefnogaeth wleidyddol drawsbleidiol i'ch cynigion.

Cofion cynnes,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg